## Eithr... Crist a Gyfodwyd

Trafodir dau beth yn 1 Corinthiaid 15:12-28, sef beth fyddai'r canlyniadau pe na chyfodasai Crist, ac wedyn canlyniadau'r ffaith o'i atgyfodiad.

Mae nifer o bethau'n dilyn os na chyfododd:
(1) Nid yw'r efengyl yn dda i ddim i'w phregethu na'i chredu. Trwy ei atgyfodiad y dangosodd Duw pwy oedd Iesu (Rhufeiniaid 1:4), ac felly rym a gwerth ei farw.

(2) Os na chyfodwyd Crist, tystion twyllodrus a chelwyddog oedd yr apostolion yn cyhoeddi'r fath beth. (Sut y gall neb â'r Testament Newydd yn ei law gredu mai mynd o gwmpas i ledaenu celwydd oedd y dynion cywir a duwiol hyn? Ac i ba beth?)

(3) Os Crist ni chyfodwyd, ni ddaeth dim ond marw a darfod amdanynt o'r rhai a gredodd ynddo.

(4) Os gobaith am y byd yma yn unig a gawn trwy ein perthynas â Christ, yna dynion i dosturio wrthynt yn anad neb oedd yr apostolion a ddioddefodd gymaint o'i herwydd tra oeddynt yma.

Ond y gwir yw, fe gyfodwyd Crist, 'yn flaenffrwyth y rhai a hunasant' (1 Corinthiaid 15:20). Mae'n werth sylwi nad yw Cristnogion y Testament Newydd ddim yn sôn am farw, dim ond huno. O ganlyniad i'n perthynas ag Adda, yng nghysgod y ddedfryd arno ef, marw yw ein rhan i gyd, a marwolaeth y corff yn ddim ond arwydd o'n marwolaeth ysbrydol trwy ein gwahaniad oddi wrth Dduw. Ond, mewn perthynas fywiol â Christ, fe gyfranogwn yn ei fywyd anfarwol ef (Ioan 14:19). Mae ei atgyfodiad ef ac atgyfodiad ei bobl yn ei ailddyfodiad yn arwain i'r Diben mawr, pan fydd llywodraeth Duw yn llwyr, angau ei hun wedi ei ddileu, a Christ yn cyflwyno ffrwyth ei waith i Dduw, a Duw bellach oll yn oll.

***Emyr Roberts***